Growing with Autism
Tyfu gydag Awtistiaeth
www.ASDinfoWales.co.uk

# Adnabod Beth sy'n Achosi Ymddygiad Heriol gan ddefnyddio Siart ABieC

Er mwyn adnabod sbardunau a phwrpas ymddygiad heriol yn gywir, bydd angen i chi gofnodi ymddygiad gan ddefnyddio siart ABieC - gweler y Daflen Gynghori - Dadansoddi Ymddygiad Heriol Plant ag Anhwylder Sbectrwm Awtistaidd.

Edrychwch ar y siart ABieC yr ydych chi wedi ei gwblhau, i edrych am batrymau cyffredin yn yr Adran Rhagflaenydd (beth sy'n digwydd cyn yr ymddygiad). Gallwch ddefnyddio'r tabl isod i ystyried y prif faterion a all fod yn achosi ymddygiad heriol mewn plentyn ag ASD.

| | |
|---|---|
| **C**yfathrebu | a wnaeth y plentyn ddeall? A yw'r plentyn wedi camddeall? |
| **A**rferion | a fu newid yn y drefn? A yw'r plentyn wedi cael help i wybod y drefn? |
| **Rh**yngweithio | a fu camddealltwriaeth cymdeithasol? A yw'r plentyn yn deall beth mae disgwyl iddo ei wneud? |
| **S**ynhwyrau | materion synhwyraidd – a oes cynnydd / newid mewn ysgogiadau synhwyraidd? |
| **D**ychymyg | a oes disgwyl i'r plentyn ddefnyddio ei ddychymyg neu fod yn greadigol? |
| **G**oddrychedd | ydych chi'n tybio bod y plentyn yn ymddwyn yn heriol yn fwriadol? Ydych chi'n ymateb gan dybio hynny? |

Yn aml, mae'r ymddygiad yr ydych yn ei weld yn 'swyddogaethol', sy'n golygu bod pwrpas i'r ymddygiad.

Gall ymddygiad â phwrpas clir gynnwys rhedeg i ffwrdd er mwyn symud o sefyllfa llawn straen, ymosod yn llafar er mwyn atal rhywun rhag siarad, neu gloi ei hun i ffwrdd i osgoi pethau.

Trwy adnabod y sbardun neu'r anhawster sylfaenol ac yna dileu'r sbardun neu roi cymorth, byddwch yn atal yr ymddygiad rhag digwydd.

Enghraifft:
Yr Ymddygiad Penodol:
Sgrechian yn yr archfarchnad.

Y rhesymau posibl / anawsterau sylfaenol:

Cyfathrebu
Ni allaf ddeall pa mor hir yr ydym yn mynd i fod yma. Rwy'n teimlo'n bryderus, ond nid wyf yn deall y teimladau hyn ac ni allaf ddweud wrth unrhyw un am y peth.

Arferion
Fel arfer rydym yn mynd adref yn syth, nid wyf yn hoffi pethau'n newid. A yw hyn yn golygu nad ydym yn mynd adref o gwbl?

Rhyngweithio
Nid wyf yn deall beth wyt yn ei ddisgwyl oddi wrthyf — beth wyf i fod ei wneud?

Synhwyrau
Mae goleuadau llachar, silffoedd prysur, arogleuon cryf a llawer o bobl. Ni allaf ymdopi â hyn i gyd.

Dychymyg
Rwyt ti wedi gofyn i mi ddewis yr hyn y byddai dad yn ei hoffi i de…ni allaf ddyfalu ac nid wyf yn gwybod beth wyt eisiau i mi ei ddweud.

Goddrychedd
Rwyt yn cadw dweud wrthyf i beidio bod yn wirion, nid wyf yn bod yn wirion, mae ofn arna i.

Yn yr enghraifft uchod, mae sbardunau clir ar gyfer yr ymddygiad yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth y plentyn.

Dylech nawr edrych ar eich siart ABieC a gweld a allwch ddod o hyd i sbardunau tebyg, neu ofyn i weithiwr proffesiynol eich helpu.

Os yw ymddygiad y plentyn yn briodol, hyd yn oed os yw'n annymunol (er enghraifft mynd yn bryderus yn ymwneud â newid i'r drefn) ni ddylech geisio newid yr ymddygiad, ond yn hytrach newid yr amgylchedd (gallech roi cynnig ar gynllunwyr lluniau, neu gyfrif i lawr).

Os mai materion synhwyraidd yw achos yr ymddygiad annymunol, newid yr amgylchedd fydd y ffordd ymlaen (siopa mewn mannau tawelach neu ar adegau tawelach o'r dydd efallai).

Os oes sbardunau clir, sy'n gysylltiedig ag ASD y plentyn, dylech bob amser roi cymorth ychwanegol a newid yr amgylchedd er mwyn atal yr ymddygiad rhag digwydd eto.